


CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF
(DEUOLI A4119 COED-ELÁI)
GORMHYMYN PRYNU GORFODOL 2020
DEDDF PRIFFYRDD 1980
DEDDF CAFFAEL TIR 1981

DATGANIAD O'R RHESYMAU

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Ar 21 Mehefin 2018, penderfynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ganiatáu awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr y Priffyrd a Gofal y Strydoedd gymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau i wneud, i gadarnhau ac i weithredu Gormhylyn Prynu Gorfodol 2020 ('y Gormhylyn') ar gyfer (Deuoli A4119 Coed-elái) Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, yn ddibynnol ar gael cyllid ar gyfer pob cam o'r broses. Bydd y Gormhylyn yn galluogi deuoli'r A4119 rhwng cylchfan Coed-elái a chylchfan Pencadlys Gwasanaeth Tân De Cymru. Mae adran gynllunio'r Cyngor wedi cadarnhau does dim dim angen caniatâd cynllunio penodol, gan ei fod yn ddatblygiad a ganiateir.
- 1.2 Mae'r Gormhylyn wedi'i wneud dan adran 239, 240 a 246 o Ddeddf y Priffyrd 1980 ac adran 2 y Ddeddf Caffael Tir 1981. Mae angen adrannau 239 a 240 er mwyn galluogi'r Cyngor i gaffael tir er mwyn adeiladu priffordd ac i gynnal y gwaith angenrheidiol i wella'r briffordd. Mae Adran 246 yn galluogi'r Cyngor i gynnal y gwaith angenrheidiol i liniaru effaith y briffordd newydd, wedi'i gwella o'r ardal gyfagos. Mae Adran 2 o'r Ddeddf Caffael Tir 1981 yn gosod y weithdrefn ar gyfer llunio'r Gormhylyn a'i gadarnhau.
- 1.3 Fe roddodd Cabinet RhCT gymeradwyaeth i wneud cais am caniatâd cynllunio, os oedd angen, a chychwyn ar drafodaethau tir ym mis Mehefin 2018^{11 12}. Cafodd cymeradwyaeth bellach ei rhoi ym mis Gorffennaf 2019^{9 10} i wneud Gormhylyn Prynu Gorfodol os oedd angen. Mae'r prosiect wedi cael ei ariannu drwy grant gan Lywodraeth Cymru a chyllid gan y Cyngor. Mae'r manylion yn adran 9. Yn wreiddiol, roedd y prosiect yn cynnwys cael gwared â'r gylchfan i Bencadlys Gwasanaeth Tân De Cymru ac ail-gyfeirio mynediad i'r Pencadlys drwy Rodfa Sterling. Fodd bynnag, ym mis Ionawr 2020, tynnwyd y syniad yma o'r cynllun.
- 1.4 Mae'r ffordd gerbydau ddeuol arfaethedig yn dechrau ar gylchfan Pencadlys Gwasanaeth Tân De Cymru ac yn parhau i gyfeiriad y gogledd hyd at gylchfan Coed-elái. Mae adran fach o waith i'r Gogledd o gylchfan Coed-elái er mwyn creu lôn uno. Yn bennaf, mae'r tir yn dir ffermio gyda nifer o berchnogion tir. Yng nghanol y Cynllun, mae DCWW yn berchen ar Safle Triniaeth ar ddwy ochr o'r ffordd gerbydau, mae gan y Bathdy Brenhinol ei brif orsaf bwmpio o'r afon, gyda mynediad o'r ffordd gerbydau sengl bresennol, a bydd 2 fusnes yn cael eu heffeithio. Does dim mathau arbennig o dir i'w caffael yn rhan o'r Gormhylyn Prynu Gorfodol. Does dim adeiladau rhestrydig i'w caffael a dyw'r tir sydd ei angen ddim mewn ardal cadwraeth.



- 1.5 Mae rhestr gyflawn o'r parseli o dir sydd eu hangen ar gyfer y Cynllun ynghyd â chynllun, a'r holl dirfeddianwyr hysbys sy'n cael eu heffeithio, wedi eu cynnwys yn Atodiad 1.
- 1.6 Wrth ystyried defnyddio pwerau prynu gorfodol, mae'r Cyngor wedi ystyried y Confensiwn ar Hawliau Dynol fel sydd wedi'i gynnwys yn y gyfraith yn y DU gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Yn bennaf, mae wedi ystyried yr hawliau, sy'n cael eu nodi yn Erthygl 1 o protocol cyntaf i'r Confensiwn ar Hawliau Dynol. Ni ystyrir Erthygl 8 yn berthnasol gan nad yw'r tir sydd wedi'i gynnig ar gyfer ei gaffael yn effeithio ar fywyd preifat na bywyd teulu.
- 1.7 Mae'r Datganiad o'r Rhesymau ("y Datganiad") yn ddatganiad anstatudol a wneir yn unol â'r canllawiau yn Atodiad N i'r Cylchlythyr NAFWC 14/2004 'Gylchlythyr Diwygiedig ar Orchmylion Prynu Gorfodol', i egluro rhesymau'r Cyngor dros wneud y Gorchymyn. Dydy'r Datganiad yma ddim yn Ddatganiad Achos ffurfiol o dan Reol 16 (1) o Reolau Prifyrdd (Gweithdrefn Ymchwiliadau) 1994 neu Reol 9 (2) o Reolau Prynu Gorfodol (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2010. Wrth baratoi'r Datganiad, mae'r Cyngor wedi ymdrechu i ddarparu digon o wybodaeth fel y gall ei resymau dros wneud y Gorchymyn gael eu deall yn iawn a bod y rhai sydd â diddordeb, a allai gael eu heffeithio gan y Gorchymyn, yn cael eu hysbysu o ran ble i gael y dogfennau perthnasol, neu eu gweld, ac o ran sut a phryd i gyflwyno sylwadau mewn perthynas â'r Gorchymyn. Rhaid i'r Cyngor hefyd roi sylw i Gylchlythyr ddrafft 003/2009 'Prynu Gorfodol yng Nghymru a'r 'Rheolau Critchel Down' (Fersiwn Cymru 2019)'. Os bydd y Cylchlythyr newydd yn cael ei fabwysiadu yn ystod y broses o gadarnhau'r Gorchymyn, ni ystyrir y bydd yn newid i'r sail ar gyfer gwneud y Gorchymyn.
- 1.8 Termau wedi'u Diffinio:

A4119: y briffordd sy'n cysylltu Tonypandy yn Rhondda Cynon Taf â Bae Caerdydd, Caerdydd.

A4119 Coed-elái: y rhan o'r ffordd gerbydau rhwng cylchfan Coed-elái a chylchfan Pencadlys Gwasanaeth Tân De Cymru.

Llwybr Teithio Llesol: mae'r ystyr wedi'i osod yn Adran 2 Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

CDLI: Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf hyd at 2021, wedi'i fabwysiadu ym mis Mawrth 2011

Tir y Gorchymyn: y parseli o dir sydd wedi'u rhestru yn Atodiad 1.

Cynllun: Yr holl ymdrechion a wneir i ddatblygu'r adran o'r ffordd gerbydau ddeuol arfaethedig rhwng cylchfan Coed-elái a cylchfan Pencadlys Gwasanaeth Tân De Cymru.

2. AMODAU PRESENNOL

2.1 Cronoleg y Prosiect

Ymarfer dichonoldeb i'w gynnal a'r cynllun yn cael ei gymeradwyo	Medi 16
Llythyr Cychwynnol i Breswylwyr	Awst 17
Cam 1 Weltag wedi'i gwblhau	Ionawr 18
Dyluniad Cychwynnol wedi'i gychwyn	Ionawr 18
Cychwyn Arolwg Ecoleg	Mawrth 18 (wedi dod i ben ym Mehefin 19)
Cwblhau asesiad ar Goridor yr A4119, rhagolwg traffig ac asesiad capaciti	Mai 18
Caniatâd cychwynnol gan y Cabinet i'r prosiect gyflwyno caniatâd cynllunio a dechrau trafodaethau tir	Mehefin 18
Llythyr gan Adran Gynllunio RhCT yn derbyn y datblygiad a ganiateir sydd wedi'i ddatgan	Medi 18
Cam 2 Weltag wedi'i gwblhau	Hydref 18
Archwiliadau Tir ar y Safle	Ionawr 19
Dechrau trafodaethau prynu tir	Ionawr 19
Ymgynghoriad Cyhoeddus	Chwefror 19
Dyluniad Cychwynnol yn cael ei roi gan redstart i RhCT	Mai 19
Cwblhau Asesiad Trafnidiaeth	Mehefin 19
Caniatâd gan y Cabinet ar gyfer y prosiect a phrynu tir	Gorffennaf 19

Diwygio'r Asesiad Trafnidiaeth i edrych ar fynediad i bencadlys y Tachwedd 19
Gwasanaeth Tân

Penderfynu cadw cylchfan pencadlys y Gwasanaeth Tân a Ionawr 20
dechrau'r deuoli o'r fan honno

Dechrau dyluniad manwl Mai 20

Anfon llythyr Diwedduariad y Dyluniad i'r holl dirfeddianwyr Gorffennaf 20

- 2.2 Mae'r A4119 yn cyflawni rôl strategol, gan ei fod yn gyswllt pwysig rhwng yr M4 ger cyffordd 34 a Chymoedd y Rhondda. Yn ogystal, mae dwyrain/gorllewin yr A473 yn gysylltiad da â Phen-y-bont ar Ogwr yn y gorllewin a choridor yr A470 tua'r dwyrain.
- 2.3 Mae yna ffyrdd cerbydau sengl a deuol ar hyd yr A4119. Mae'r A4119 ger Coed-elái yn ffordd gerbydau sengl gyda therfyn cyflymder o 50mya. Mae'n deuoli o gylchfan Pencadlys Gwasanaeth Tân De Cymru ymlaen.
- 2.4 Yr A4119 yw'r unig ffordd gogledd/de i Gymoedd y Rhondda o ardal Tonysguboriau, ac mae'r holl wasanaethau bysiau cyfredol yn defnyddio'r heol yma i'r de o Goed-elái. Mae gwasanaethau'n gadael y briffordd a defnyddio ffyrdd lleol wrth wasanaethu cymunedau yn y gogledd. Cafodd oedi'r gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus (bysiau) eu hamlygu yng Ngweithdy'r Rhanddeiliaid ar gyfer WeLTAG Cam 1 (2016)⁵ a chyfeiriwyd at yr oedi yn yr Adroddiad Asesiad Effaith (2016)¹⁶. Ystyrir bod y traffig trwm ar yr A4119 rhwng Coed-elái a Thonysguboriau yn creu'r oedi.
- 2.5 Mae'r A4119 Coed-elái yn profi tagfeydd traffig yn ystod y cyfnodau prysuraf, sy'n effeithio'r A4119 i'r de. Er bod safon yr A4119 yn yr ardal yn dda, mae maint llif y traffig o'r de/gogledd yn achosi problemau ar ddwy ran y ffordd gerbydau sengl i'r de o gylchfan Coed-elái a ger y gylchfan ei hun. Ym mis Mai 2018, cafodd asesiad o goridor yr A4119 o Donyrefail i'r M4 ei gynnal.³ Edrychodd hwnnw yn fanwl ar bob un o'r cyffyrdd gan asesu'r capaciti cyfredol yn ogystal â rhagweld capaciti'r dyfodol. Crynhodd yr adroddiad fod ciwiau a'r oedi ger cylchfan Coed-elái (cyffordd 3) ar eu gwaethaf yn y boreau rhwng cylchfan Heol Cwm Elái (cyffordd 3) a chylchfan Ysbyty Brenhinol Morgannwg (cyffordd 5); dyma hyd y cynllun deuoli arfaethedig. Roedd cyfnod y traffig a ragwelwyd rhwng 2020 a 2037. O ganlyniad i Covid-19, dyw'r Cyngor ddim wedi gallu cael unrhyw ddata arolwg cynrychioladol am amodau traffig arferol yn ystod 2020, gan fod gostyngiad sylweddol i'r traffig o ganlyniad i gyfyngiadau. Mae'r Cyngor o'r farn, unwaith y bydd cyfyngiadau yn cael eu llacio'n llwyr, y bydd lefel y traffig yn dychwelyd i'r un faint ag oedd cyn Covid, hyd yn oed wrth ystyried bod nifer o bobl o bosib yn parhau i weithio gartref. Mae pobl hefyd yn cael eu hannog ar hyn o bryd i beidio â defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, ac o ganlyniad, mae rhagor yn ddibynnol ar gerbydau preifat. Hyd yn oed os bydd lefelau traffig yn lleihau yn y tymor byr, bydd angen y gwaith o hyd erbyn y flwyddyn gafodd ei rhagweld, sef 2037. Mae awdur yr adroddiad trafnidiaeth wedi darparu nodyn technegol, sef - 'Gwerthusiad Economaidd o Gynllun Deuoli Coed-elái a goblygiadau llai o draffig o ganlyniad i Covid-19'¹⁴. Daw i'r casgliad canlynol, serch goblygiadau amcangyfrifedig Covid-19: 'Mae'r deuoli yn dal i fod yn angenreidiol er mwyn lleddfu'r tagfeydd ar yr A4119 a bydd yn darparu lefel dda o werth am arian, yn unol â chanllawiau gwerthuso trafnidiaeth genedlaethol.'
- 2.6 Daw'r isod o'r casgliad ar dudalen 18 Asesiad Trafnidiaeth Mehefin 2019¹, gafodd ei gynnal ym mis Mehefin 2019:

'Mae nifer yn profi oedi sylweddol a thagfeydd ar hyd ffordd gerbydau yr A4119 yn yr ardal yma, gyda chiwiau hir ar hyd y ffordd gerbydau o fewn ardal yr astudiaeth, ynghyd ag i gyfeiriad y gogledd a'r de. Mae cerbydau'n gor fod arafu'n sylweddol ar hyd y ffordd yma yn ystod y cyfnodau prysuraf ac mae ciwiau hir ar hyd dwy ochr y ffordd gerbydau o fewn ardal yr astudiaeth.'

'Dangosodd asesiad o bolisi trafnidiaeth leol a chenedlaethol bod y Cynllun arfaethedig yn unol â'r canllawiau polisi cenedlaethol, fel y rhai sydd wedi'u cyflwyno yn NCT 18 ac yn PCC. Mae hefyd yn gyson â dyheadau polisi lleol sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Datblygu Lleol.'

'Cafodd data gwrt drawiadau yn ardal yr astudiaeth ei adolygu. Canfuwyd bod y gwrt drawiadau sydd wedi digwydd yn yr ardal o ganlyniad i'r tagfeydd a'r ciwiau yn sgil y tagfeydd hynny, yn ogystal ag ymddygiad gyrwyr yn yr ardal yma. Daeth yr adroddiad i gasgliad bod dadansoddiad manwl o gapasiti cyffyrdd y gwelliannau arfaethedig ar gyffyrdd 3 a 5 i'w ddechrau yn 2022 gyda 2037 yn flwyddyn ddylunio. Dangosodd dadansoddiad o gyffordd 3 (Coed-elái) y rhagwelir bod y gyffordd yn gweithredu o fewn ei gapasiti ym mlwyddyn gychwynnol 2022, ac ychydig yn fwy erbyn y flwyddyn ddylunio 2037. Mae'n welliant sylweddol ar weithrediad rhagweladwy'r gyffordd fel y mae ar hyn o bryd. Dangosodd dadansoddiad o gyffordd 5 (Ysbyty Brenhinol Morgannwg) bod y gyffordd ar hyn o bryd dros gapasiti a rhagwelir y bydd hynny'n parhau i weithredu dros gapasiti yn y flwyddyn gychwynnol, 2022, a'r flwyddyn dylunio, 2037. Profwyd ei fod yn darparu gostyngiad bach iawn ym mherfformiad gweithredol y gylchfan yn ystod y cyfnod prysuraf yn y bore a gwelliant sylweddol i'r gyffordd yn ystod y cyfnod prysuraf yn y prynhawn.'

'Yng ngoleuni'r uchod, ystyrir bod y Cynllun deuoli arfaethedig yn unol â dyheadau polisi ac ystyrir ei fod yn fanteisiol i rwydwaith y priffyrdd lleol o ran diogelwch ar y ffordd a chapasiti.'

- 2.7 Ym mis Tachwedd 2019, cafodd yr Asesiad Trafnidiaeth ei ddiweddu i adolygu'r mynediad i Bencadlys y Gwasanaeth Tân ac i ychwanegu lôn uno i'r gogledd o gylchfan Coed-elái. Mae Opsiwn 2 gyda chylchfan wedi'i haddasu wedi'i fabwysiadu gan ei fod yn gweithredu o fewn capasiti 2022 ac ychydig dros gapasiti yn 2037. Cafodd cynllun newydd ar gyfer cylchfan Coed-elái (cyffordd 3) ei adolygu gyda 2 lôn tua'r gogledd yn uno wedi'r gylchfan. Rhagwelir y newid i wella perfformiad gweithredol y gylchfan.
- 2.8 Mae'r newid cyfredol rhwng safonau ffyrdd sengl a deuol sydd ar gylchfan Pencadlys Gwasanaeth Tân De Cymru; o'r fan hon, mae'r ffordd gerbydau ddeuol yn mynd yr holl ffordd i'r de tua'r M4.
- 2.9 Er ei bod yn heol gymharol syth, mae'r cyfle i oddi weddi ar yr A4119 ger Coed-elái yn gyfyngedig o ganlyniad i linellau gwyn dwbl. Mae'r llinellau gwyn dwbl yn eu lle yn sgil topograffwr ffordd ac yno er mwyn stopio traffig rhag troi i'r dde allan o'r busnes sydd ar hyd y ffordd.
- 2.10 Ar hyn o bryd, mae pum bws bob awr (dydd Llun i ddydd Gwener) a phedwar bws yr awr (dydd Sadwrn) ac maen nhw'n gwasanaethu rhwng A4119 o'r de i Gaerdydd, drwy Donysguboriau a'r Groes-faen. Mae pedwar bws yr awr (ddydd Llun i ddydd Gwener) a thrif bws yr awr (dydd Sadwrn) yn gwasanaethu i gyfeiriad y gogledd i Donypandy drwy Donyrefail, Trebanog a'r Porth ar hyd rhan o ffordd ddeuol arfaethedig ar hyd yr A4119.

- 2.11 Mae beicwyr yn defnyddio'r ffordd, ond dyw'r ffordd ddim yn llwybr beicio delfrydol. Dyw'r llwybr troed ddim yn ymddangos fel petai'n cael llawer o ddefnydd, ac mae'n gul iawn ac wedi tyfu'n wylt. Mae yna hefyd Lwybr Teithio Llesol yn y goedwigaeth i'r de o'r Cynllun, fodd bynnag, mae'n dywyll ac yn anghysbell. Byddai'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig ger y ffordd gerbydau ddeuol newydd yn fwy deniadol i ddefnyddwyr teithio llesol.

3. Y CYNLLUN

- 3.1 Bydd y Cynllun yn darparu ffordd gerbydau ddeuol, dwyffordd, hir 1.5km o hyd ar hyd yr A4119 ger Coed-elái rhwng cylchfan Pencadlys Gwasanaeth Tân De Cymru a cylchfan Coed-elái^{24 25 26 27}. Bydd hyn yn disodli'r ffordd gerbydau sengl dwyffordd sydd rhwng cylchfan Pencadlys Gwasanaeth Tân De Cymru a cylchfan Coed-elái ar hyn o bryd. Bydd Llwybr i'r Gymuned 3 metr o led yn dilyn yr A4119 yng Nghoed-elái ar hyd ochr orllewinol y ffordd gerbydau ac yn cysylltu gyda cylchfan Parc Busnes Llantrisant i'r llwybr beicio gyda mynedfa ger cylchfan Coed-elái.
- 3.2 Bydd pont droed wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gosod i'r de o gylchfan Coed-elái i alluogi cerddwyr a beicwyr i groesi o'r Llwybr i'r Gymuned newydd i Goed-elái. Bydd y bont droed a'r llwybr amlddefnydd yn rhoi cyfle i weithwyr lleol y datblygiad newydd yng Nghoed-elái i gerdded neu feicio i'r gwaith a lleihau eu dibyniaeth ar geir. Dydy'r Cynllun ddim yn effeithio ar hawliau tramwy cyhoeddus.
- 3.3. Bydd y ffordd gerbydau ar y bont ffordd i'r gogledd o gylchfan Coed-elái yn cael ei lledaenu er mwyn galluogi 2 lôn uno oddi ar y gylchfan, yn seiliedig ar safonau Llawlyfr Dylunio Ffyrrd a Phontydd.
- 3.4 Bydd y dyluniad yn datblygu lefel uchel o ddiogelwch cynhenid trwy ddefnyddio'r safonau sydd wedi eu cynnwys yn Llawlyfr Dylunio Ffyrrd a Phontydd, Llawlyfr Strydoedd 2, a Manyleb Gwaith Priffyrrd.
- 3.5 Bydd gwaith uwchraddio i bedwar cwlfer ar hyd y Cynllun, gyda dau yn groesfannau bywyd gwylt ar gyfer ystlumod. Mae'r ystlumod yn croesi dros ganopi'r coed ar hyn o bryd.
- 3.6 Mae safle DCWW (Dŵr Cymru/Welsh Water), plot 11A, 11B, 11C, 11D ac 11E yn rhychwantu canol y ffordd bresennol; bydd angen ildio'r tir er mwyn galluogi'r ffordd i ledaenu, gyda gwaith adeiladu llety i'r de o'r gweithfeydd trin, naill ai drwy dorri llethr neu gynnal y lefel presennol drwy ehangu'r wal gynnal i alluogi hyn.
- 3.7 Bydd y gyffordd i'r busnes gwerthu ceir a'r safle busnes amlddefnydd, Plot 16A a 16B, yn cael ei huwchraddio a'u hailandio er mwyn galluogi ffordd fwy ddiogel o droi i'r chwith.
- 3.8 Bydd angen i'r Cyngor, fel Corff Cymeradwyo System Draenio Drefol Cynaliadwy, ganiatáu dyluniad draenio newydd ar hyd y safle.
- 3.9 Bydd mesuriadau ecolegol yn cael eu hintegreiddio yn y dyluniad, gan ddefnyddio dull holistaidd o ddarparu corridorau ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd drwy'r Cynllun.
- 3.10 Mae'r Cyngor wedi gwneud y Gorchymyn (Cau Mynedfa Breifat i Eiddo ar A4119 Deuoli Coed-elái) 2020 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ("y Gorchymyn") (Atodiad 2)) yn unol â'r pwerau sydd wedi'u cynnwys yn adrannau 124 a 129 o Ddeddf Priffyrrd 1980 ("Deddf 1980"), a'i effaith fydd atal hawl cerbydau i ddefnyddio mynedfeydd preifat ar hyd yr A4119

rhwng Cylchfan Coed-elái a Chylchfan Pencadlys y Gwasanaeth Tân i adeiladau cyfagos a darparu dulliau mynediad newydd i'r adeiladau hynny yn ôl yr angen.

- 3.11 Nododd y Cyngor 12 mynedfa breifat i adeiladau sy'n ffinio â'r rhan o'r A4119 sy'n destun deuoli arfaethedig o dan gynllun Deuoli'r A4119 Coed-elái. Mae'r Cyngor o'r farn bod y mynedfeydd preifat yma'n debygol o achosi perygl i draffig ar y briffordd, neu ymyrryd yn afresymol â hi.
- 3.12 Yn unol â'r pwerau sydd wedi'u cynnwys yn adran 129(1) o Ddeddf 1980, bydd y Cyngor yn darparu mynediad newydd i'r eiddo hynny â mynedfeydd preifat sydd angen eu cau yn unol ag adran 124 o Ddeddf 1980, ac eithrio Cyfeiriad g Dulliau Mynediad Preifat oherwydd bod y Cyngor yn fodlon does dim angen rhesymol i gael mynediad i'r eiddo o'r briffordd dan sylw.
- 3.13 Mae'r mynedfeydd preifat fydd yn cau wedi'u nodi yn y llythyr sydd yn yr Atodlen i'r Gorchymyn ac fe'u dangosir gan linellau du solet ar y map y cyfeirir ato yng Ngorchymyn (Cau Mynedfeydd Preifat i Eiddo, Deuoli'r A4119, Coed-elái) 2020 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'r mynedfeydd newydd bydd y Cyngor yn eu darparu wedi'u nodi drwy rif yn yr Atodlen honno ac fe'u dangosir gan linell doredig denau ar y Map y cyfeirir ato yng Ngorchymyn (Cau Mynedfeydd Preifat i Eiddo, Deuoli'r A4119, Coed-elái) 2020 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

4. ANGEN AM Y CYNLLUN A'R AMCANION

- 4.1 Rhagwelir y bydd y Cynllun yn gwella amseroedd teithio ar hyd y briffordd drwy dorri o leiaf pum munud oddi ar amser teithio cyfartalog ar hyd yr A4119 rhwng Ynysmaerdy a Choed-elái yn ystod y flwyddyn gychwynnol yn 2022/2023.^{1,2} Mae hyn yn cynrychioli dros 60% o ostyngiad mewn amser teithio ar y rhan yma o'r ffordd gerbydau rhwng Ynysmaerdy a Choed-elái. Bydd deuoli'r ffordd hefyd yn gwella mynediad at yr M4, gan gynyddu'r capaciti a lleihau'r tagfeydd yn ystod yr adegau prysuraf. Mae angen hyn am fod y ffordd dros gapasiti ar hyn o bryd (gweler yr amodau presennol uchod). Bydd hefyd yn cynyddu'r defnydd o deithio llesol, gwella ansawdd yr aer o ganlyniad i leihau traffig sy'n sefyll, a'i gwneud yn fwy diogel i gerddwyr a beicwyr.
- 4.2 Un o effeithiau anuniongyrchol y Cynllun bydd gwella'r cyfleoedd economaidd a chyflogaeth yng Nghwm Elái a Chwm Rhondda, drwy ddarparu cyflogaeth a manteision cymdeithasol. Bydd gwell mynediad at ganolfannau cyflogaeth allweddol yn Ne Cymru yn gwella'r cyfle i drigolion lleol chwilio am waith, ac yn ogystal â hynny, bydd Cwm Elái a Chwm Rhondda yn gyrchfannau deniadol ar gyfer denu busnesau a datblygiadau sy'n creu swyddi eraill, o ganlyniad i amser teithio cyflymach a chyfleus.
- 4.3 Mae mynediad at ddatblygiad mawr o gylchfan Coed-elái. Dyma oedd hen lofa a golosgfa Coed-elái, cyfeirnod cynllunio 09/0386/13. Cafodd caniatâd cynllunio ei roi ym mis Ionawr 2011 ar gyfer Datblygiad Cyflogaeth, hyd at 30,937m² gros o ardal llawr; sefydliadau dibreswyl (dosbarth defnydd D1, hyd at 3,716m²); cyfleusterau hamdden awyr agored hyd at 0.71ha gyda chyfleusterau newid dillad a chanolfan ynni. Ym mis Tachwedd 2019, dechreuodd Llywodraeth Cymru waith i'r safle ar gyfer y Cynllun, oedd yn cynnwys gosod ffyrdd a seilwaith ar gyfer y plotiau arfaethedig. Mae disgwyl i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn mis Tachwedd 2020. Mae'r datblygiad wedi'i nodi ar gyfer datblygu cyflogaeth ar Bolisi Safleoedd an-Strategol ASDd 14.1 yn y CDLI. Mae'r CDLI¹³ yn nodi'r safle ASDd 14.1 mewn nifer o leoliadau, gan gynnwys: Dyraniau Cyflogaeth Ardal Strategaeth y De Coed-elái; Trafnidiaeth; a Dyraniau Cyflogaeth - Coed-elái. Dyma safle mawr gydag ardal o 14.32 hectar sy'n ymestyn

am grym bellter tua'r gogledd. Roedd yr hen bwll glo/golosgi yn rhan o Gynllun adfer tir yn gynnar yn y 2000au.

- 4.4 Bydd darparu ymyrraeth drafnidiaeth ar hyd y rhan yma o'r A4119 a lleihau'r tagfeydd traffig ar hyd yr A4119 ger Coed-elái yn gwneud y safle'n fwy deniadol i ddatblygwyr.
- 4.5 Bydd y Cynllun yn gwella Llwybrau Teithio Llesol ar hyd corridor gogledd/de yr A4119 drwy ychwanegu llwybr Teithio Llesol ochr yn ochr â'r Cynllun a chroesfan ar gylchfan Coed-elái. Yn unol â'r hyn sydd wedi'i nodi dan yr Amodau Presennol uchod, mae angen gwneud hyn oherwydd nad yw'r A4119 yn llwybr deniadol na diogel i gerddwyr a beicwyr. Nod hyn yw gwella iechyd a lles y gymuned leol.
- 4.6 Bydd y Cynllun o fudd i'r amgylchedd, gan gynnwys ansawdd yr aer a sŵn, a bydd yn lleihau'r effaith gyffredinol ar yr amgylchedd ar hyd corridor gogledd/de yr A4119. Bydd ansawdd aer a sŵn yn gwella drwy leihau'r traffig llonydd sydd ar y ffordd yn ogystal â gwella isadeiledd y Briffordd. Bydd hefyd gan hyn fuddion iechyd cysylltiedig. Mae Adroddiad Asesiad Sŵn Chwefror 2019²⁰ yn asesu effaith y Cynllun yn ystod y gwaith adeiladu ac wedi hynny. Daw i'r casgliad canlynol: 'Cafodd 74 eiddo eu hasesu yn ystod yr Adroddiad Asesiad Sŵn.' Dangosodd y canlyniadau bod dim un o'r eiddo yn gymwys ar gyfer mesurau inswleiddio sŵn corfforol yn unol â Rheoliadau Inswleiddio rhag Sŵn (Diwygiad) 1988. Yn seiliedig ar y 74 o eiddo gafodd eu hasesu, ac yn unol â meini prawf sŵn traffig ar y ffordd, mae cynnydd bychan mewn lefelau sain (1.0dB - 2.9dB) i 9 eiddo yn y tymor byr, ac mae cynnydd isel iawn yn lefelau'r sain (0.1dB - 2.9dB) mewn 36 o'r eiddo yn y tymor hir.
- 4.7 Mae tirwedd Cwm Rhondda yn golygu bod yr A4058 i'r De yn Y Porth, yr A4119 yw'r prif llwybr a'r llwybr mwyaf uniongyrchol allan o'r cymoedd ac i'r M4 a'r ardal gyfagos. Bydd lleihau tagfeydd a darparu ffordd ddeuol yn galluogi bysiau i deithio'n gynt ar hyd yr A4119, gan gynyddu dibynadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus ar hyd yr A4119 a'i gwneud yn fwy deniadol i bobl ei defnyddio wrth deithio o Gymoedd y Rhondda i lefydd eraill. Does dim cysylltiadau rheilffordd rhwng y gorsafoedd lleol yn Llanharan a Phont-y-clun â gweddill Cymoedd y Rhondda, felly mae cynnig rhwydwaith fysiau dibynadwy ac effeithlon yn hanfodol wrth annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.
- 4.8 Bydd potensial i gyflwyno gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus i'r safle ASDd 14.1 arfaethedig pan fydd wedi'i ddatblygu, os yw ei faint yn cael ei ystyried yn ddeniadol i gwmlnïau bysiau. Mae modd cyflwyno gwasanaethau bws drwy newid llwybrau gwasanaethau presennol neu drwy ddarparu gwasanaeth penodol i'r datblygiad, o bosib fel partneriaeth rhwng cwmnïau bysiau a'r meddianwyr, a'i gysylltu â'r gorsafoedd trenau lleol yn Llanharan a Phont-y-clun.
- 4.9 Mae gan y Cyngor gynigion tymor hir i ddarparu Llwybrau Teithio Llesol yn ardal Tonysguboriau ac ar hyd corridor yr A4119. Yn ardal Coed-elái, bydd hyn yn golygu uwchraddio'r llwybr sy'n mynd drwy'r safle ASDd 14.1. Tua'r gogledd i'r ardal yma, bydd y llwybr yn mynd trwy Thomastown a Thonyrefail. Bydd yr ychwanegiad yma i'r rhwydwaith Llwybrau Teithio Llesol yn ei gwneud yn haws ac yn fwy hwylus i deithio i'r safle ASDd 14.1.
- 4.10 Bydd y Cynllun yn gwella diogelwch ar y ffordd ac yn lleihau'r nifer o wrthdrawiadau a nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu yn ddifrifol ar yr A4119 rhwng Tonysguboriau a Choed-elái. Mae angen hyn, fel sydd wedi'i nodi yn yr adran Amodau Presennol uchod, gan fod nifer o wrthdrawiadau wedi'u hachosi ar y rhan yma o'r ffordd o ganlyniad i giwiau a achosir gan dagfeydd ac ymddygiad gyrwyr.

5. CYD-DESTUN POLISI A'R SEFYLLFA GYNLLUNIO

- 5.1 Cyfeirir at y Cynllun yn y CDL¹³ yn yr adrannau canlynol:
- 5.1.1 Polisi Craidd SG8 - Trafnidiaeth, yn cynnwys cyfeiriad penodol at goridor yr A4119/A473. Nodir bod y corridor yn un drafnidiaeth strategol a bod galw mawr yn yr ardal am ddatblygiadau economaidd a datblygiadau tai. Mae'r polisi yma'n diogelu'r gwelliannau i'r ddarpariaeth yn yr ardal yma drwy'r system rheoli corridorau trafnidiaeth strategol.
- 5.1.2 Polisi SSA 10.2-10.10 Dyraniadau Tai - byddai 1280 o unedau tai yn elwa ac yn cael eu gwasanaethu gan yr A4119.
- 5.2 Mae cyd-destun presennol Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Thasglu'r Cymoedd yn golygu ei fod yn bwysicach nag erioed i nodi cyfleoedd strategol allweddol i gydweithio gyda phartneriaid i hybu twf economaidd yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r Cyngor wedi nodi'r Ardaloedd Cyfle Strategol allweddol er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr adfywiad economaidd a sicrhau bod y Cyngor yn llwyddiannus yn y gystadleuaeth fyd-eang ar gyfer buddsoddi. Mae Ardaloedd Cyfleoedd Strategol (ACS) yn ardaloedd daearyddol lle mae adnoddau'n canolbwytio ar ddarparu cyfleoedd i'r sector preifat fuddsoddi a chreu swyddi newydd. Nod pob ACS yw darparu pecyn cynhwysfawr er mwyn annog buddsoddiad a menter. Ar 21 Medi 2017, cymeradwyodd y Cyngor bum Ardal Cyfleoedd Strategol (ACS), yn benodol "Corridor yr A4119: Porth Rhanbarthol Cwm Rhondda." Drwy wneud hynny, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu a chyflwyno prosiectau a fydd yn cyflawni dyheadau sylfaenol y strategaeth yma, yn bennaf wrth alluogi twf economaidd sylweddol a swyddi. Mae rhan o'r Strategaeth yma'n nodi bod Coed-elái a'r A4119 yn Gyfle Datblygu, ac yn cydnabod effaith sylweddol datblygu oddeutu 14.32 hectar o dir cyflogaeth wedi'i adfer ar safle hen lofa Coed-elái, ynghyd â deuoli'r A4119 ger Coed-elái.
- 5.3 Bydd y cynigion i ddeuoli'r A4119 ger Coed-elái yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at Flaenoriaethau Corfforaethol, sef "Adeiladu Economi Gryf" a "Gwella ein Cymunedau". Mae gan y cynigion effaith sylweddol ar wella mynediad a chysylltedd, sy'n ffactor sylfaenol wrth gysylltu'r farchnad lafur â chyfleoedd cyflogaeth a chefnogi gweithgarwch economaidd.
- 5.4 Mae'r Cynllun yn mynd i'r afael yn uniongyrchol ag ymrwymiad y Cynllun Corfforaethol i fuddsoddi yn Isadeiledd y Priffyrrd ac i wella'r rhwydwaith drafnidiaeth.
- 5.5 Bydd deuoli'r A4119 ger Coed-elái yn helpu i gefnogi Cymru o gymunedau cydlynol, Cymru ffyniannus a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.
- 5.6 Penderfynwyd bod y Cynllun yn cyd-fynd mewn ffordd gadarnhaol â Deilliannau Strategaeth Trafnidiaeth Cymru.
- 5.7 Sgoriodd y Cynllun yn gadarnhaol ar Ddeilliannau Cymdeithasol a dangoswyd bod effaith gadarnhaol ar wella mynediad at ofal iechyd, addysg, a chyfleusterau siopa a hamdden.

- 5.8 Sgoriodd y Cynllun yn gadarnhaol ar Ddeilliannau Economaidd a chafodd effaith gadarnhaol ar wella mynediad i gyfleoedd cyflogaeth. Mae hefyd wedi gwella effeithlonrwydd, dibynadwyedd a chynaliadwyedd symudiadau pobl; gwella cysylltedd o fewn Cymru ac yn rhwngwladol; gyda'r gallu i gludo nwyddau yn effeithiol, yn ddibynadwy ac yn gynaliadwy ac yn gwella mynediad at atyniadau i ymwelwyr.
- 5.9 Sgoriodd y Cynllun yn niwtral ar Ddeilliannau Amgylcheddol. Er bod yna botensial i'r Cynllun gael effaith negyddol ar ein treftadaeth a'n bioamrywiaeth, sgoriodd yn gadarnhaol ar leihau cyfraniad trafnidiaeth i allyriadau nwyon tŷ gwydr ac addasu i effeithiau newid hinsawdd.
- 5.10 Mae dogfen Y Ffordd Ymlaen: Cynllun Corfforaethol Rhondda Cynon Taf 2020-2024 yn nodi'r ffordd ymlaen tan 2024 i'r Cyngor. Un o'r camau sy'n ganolbwyt i'r cynllun yw sicrhau swyddi a buddsoddi yn yr ardal. Mae gan y Fwrdeistref Sirol ddisgwyliadau uchel, mae'n hyderus ac yn hyrwyddo cyfleoedd i wella rhwydweithiau trafnidiaeth. Mae manteisio ar y Fargen Ddinesig yn hanfodol. Mae gweledigaeth y cynllun 'i bawb'. Drwy wella trafnidiaeth gyhoeddus, bydd y Cynllun yn hyrwyddo cyfleoedd i bawb drwy wella mynediad a chysylltedd drwy Gwm Elái.
- 5.11 Bydd lleihau'r traffig hefyd yn help i gyflawni un o'r ymrwymiadau uniongyrchol y Cynllun Corfforaethol, sef y bydd 'amgylchedd lleol Rhondda Cynon Taf yn lân ac yn ddeniadol, gyda ffyrdd a phalmentydd sy'n cael eu cynnal yn dda, traffig sy'n llifo'.
- 5.12 Cafodd y prif themâu a godwyd yn sgil Gweithdy'r Rhanddeiliad eu harfarnu yn unol â'r opsiynau newid yng Nham 1 yr WeLTAG⁵⁶. Yn gyffredinol, canfuwyd bod gan Gynllun A4119 Coed-elái effaith gadarnhaol ar brif bryderon y rhanddeiliaid.
- 5.13 Cafodd y Cynllun ei werthuso yn unol â saith maen prawf Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae ganddo'r potensial i greu effaith gadarnhaol sylweddol. Hwn oedd yr unig gynnig a oedd yn cyd-fynd â'r rhan fwyaf o nodau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 5.14 Does dim angen caniatâd cynllunio ar gyfer y prif ddatblygiad gan fod y gwaith yn cynnwys datblygu a ganiateir, drwy Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad a Ganiateir Cyffredinol) 1995, Atodlen 2, Rhan 13, Dosbarth A sy'n darparu caniatâd cynllunio arfaethedig i gynnal gwaith hanfodol i wella priffordd gan Awdurdod y Prifyrdd ar dir ger ffin priffordd sydd yno'n barod. Bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith i'r bont droed, a bydd raid gwneud cais ar wahân i'r cynllun priffordd ar gyfer hyn. Mae'r rhan yma o'r gwaith dros 1ha, felly mae'r Cynllun yn dod o fewn Atodlen 2 paragraff 10(f) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017. Gofynnwyd am farn sgrinio Asesiad Effaith i'r Amgylchedd (AEA) gan adran gynllunio'r Cyngor. Maen nhw wedi cadarnhau nad yw'r Cynllun yn debygol o effeithio'n sylweddol ar yr amgylchedd, felly does dim angen AEA¹⁴
¹⁵.
- 5.15 O ran achos cymhellol dros gaffael tir, ni ystyrir bod unrhyw beryglon i faterion gwarchod natur nac i'r amgylchedd a fyddai'n effeithio'n negyddol ar fudd i'r cyhoedd wrth ddatblygu'r Cynllun.
- ## 6. YMGYNGHORIADAU
- 6.1 Mae ymgynghoriad wedi dechrau a bydd yn parhau gyda'r rhanddeiliaid a phartïon sy'n cael eu heffeithio gan y cynigion i ddeuoli'r A4119 ger Coed-elái. Mae'r rhain yn cynnwys pobl sy'n

gyfrifol am dir sydd ei angen ar gyfer y cynllun, gan adrannau o'r Cyngor, cyrff statudol, ymgymmerwyr statudol a sefydliadau trydydd parti.

- 6.2 Cafodd Gweithdy Rhanddeiliaid ei gynnal ar 20 Medi 2017 gyda swyddogion y Cyngor. Cafodd ei hwyluso gan beirianwyr Redstart. Mae adroddiad llawn o'r gweithdy, gan gynnwys y taflenni gwaith sy'n cynnwys yr holl wybodaeth a gasglwyd, yn rhan o Atodiadau o Adran Achos Amlinelliad Strategaeth yn yr Adroddiad Asesiad Effaith⁶.
- 6.3 Roedd y Cynllun yn destun dwy arddangosfa gyhoeddus ym mis Chwefror 2019¹⁹. Roedd gwefan hefyd ar-lein yn ystod wythnos yr arddangosfa gyda blwch sylwadau i alluogi pobl i gynnig adborth ar wybodaeth yr ymgynghoriad. Daeth dros 140 o bobl i'r ddwy arddangosfa, gyda'r mwyafrif helaeth yn mynigi eu cefnogaeth ar lafar. Derbyniwyd 59 ymateb ffurfiol gan y cyhoedd drwy'r arddangosfa a'r wefan. Roedd 35 o'r ymatebion ffurfiol o blaids y cynllun, a mynegodd 7 nad oedd gyda nhw farn gref y naill ffordd na'r llall. Roedd y 17 ymateb arall yn gwrthwynebu'r cynllun am resymau amrywiol, a oedd yn cynnwys creu rhagor o dagfeydd, goryrru a diogelwch cerddwyr. Dylid nodi y bydd y dyluniad manwl yn ystyried yr ymatebion ac, ble y bo'n addas, bydd mesurau lliniaru rhesymol yn cael eu cynnwys.

7. BUDDIANAU'R TIR DAN SYLW

- 7.1 Y tir sy'n rhan o'r Gorchymyn yw'r lleiafswm angenrheidiol ar gyfer y Cynllun ac i ddarparu'r mesurau lliniaru angenrheidiol a chydymffurfio â deddfwriaeth a safonau dylunio perthnasol. Mae Cyngor hefyd yn fodlon bod y Gorchymyn yn cynnwys yr holl dir a'r hawliau sy'n angenrheidiol i alluogi adeiladu'r Cynllun. Er bod y Cynllun hefyd yn cynnwys gwaith ar dir tu hwnt i Dir y Gorchymyn, mae'r tir ychwanegol hwnnw'n rhan o'r briffordd gyhoeddus yn barod, ac mae'r Cyngor yn fodlon fod ganddo'r hawliau digonol fel Awdurdod Lleol y Briffordd i gynnal gwaith ar y tir hwnnw. Mae'r Cyngor hefyd wedi nodi tir digonol dan ei berchnogaeth neu reolaeth at ddibenion ar gyfer creu closydd ar gyfer y safle a'r gwaith adeiladu.
- 7.2 Bydd Tir y Gorchymyn yn cynnwys caffalet tir gan nifer o dirfeddianwyr. Bydd y Cynllun yn cynnal holl gysylltiadau presennol y gymuned â rhwydwaith y ffordd, a fydd dim angen ail-gartrefi na symud trigolion yn ystod gwaith adeiladu'r Cynllun.
- 7.3 Mae'r Cyngor wedi ceisio, ac yn parhau i geisio, caffalet Tir y Gorchymyn, neu hawliau dros Dir y Gorchymyn, drwy drafod a chytuno lle bynnag bo hynny'n bosibl, a dyw gwneud y Gorchymyn ddim yn rhagfarnu hawliau'r tirfeddianwyr priodol i gytuno ar drafodaethau o'r fath drwy gontact.
- 7.4 Nodi Tir a Chaffael Tir Gwirfoddol
- 7.4.1 Dechreuodd y broses o nodi'r tir yn 2017 gydag astudiaethau desg yn cael eu cynnal i nodi gwybodaeth perchnogaeth Cofrestrfa Tir ynghyd â gwybodaeth hysbys am dirfeddianwyr a deiliad yn yr ardal. Cafodd llythyr ei anfon i bob tirfeddianwr sy'n cael ei effeithio gan y Cynllun, gan gyflwyno'r prosiect²².
- 7.4.2 Dilynwyd hyn gan benodiad Chris Clarke Surveyors Limited yn 2019, sydd wedi cynnal cyfarfodydd a thrafodaethau gwirfoddol gyda'r prif bartion sydd wedi'u heffeithio.

7.4.3 Yn 2020, cafodd ymarfer nodi cynhwysfawr ei gynnal at ddiben ceisio am hawliau ar gyfer tir o fewn ardal y prosiect, ac wedi hynny, at ddiben llunio Mapiau'r Gorchymyn ac Amserlen ar gyfer y Gorllewin. Cafodd llythyr arall yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf tirfeddianwyr am y prosiect ym mis Gorffennaf 2020²³.

7.4.4 Roedd hyn yn cynnwys diweddarus data'r Gofrestrfa Tir, adolygiad cynhwysfawr o holl deitlau'r tir wedi cofrestru gan arbenigwyr Nodi Tir yn Bruton Knowles, cyhoeddi holiaduron manwl i'r holl bobl hysbys â buddiannau yn y tir a chasglu'r holiaduron maes o law, codi hysbysiadau ar gyfer tir anhysbys neu heb ei gofrestru, ac ymchwiliadau i hynny, chwiliad ymgymwr statudol, chwiliad Tŷ'r Cwmniâu, chwiliad priffyrrd a chwiliad masnachfrant a maenoraidd. Felly, wrth wneud hyn, mae'r Cyngor wedi bodloni'r prawf ymholfanwl.

7.4.5 Mae trafodaethau gwirfoddol yn parhau ar hyn o bryd.

- 7.5 Serch hynny, does dim modd i'r Cyngor fodloni ei hun bod yr holl dir, hawliau a buddion sydd eu hangen i gyflawni'r Cynllun gael eu caffaol drwy gyd-drafod (er bod yr ymdrechion i wneud hynny yn parhau). Mae hi felly'n cael ei hystyried yn angenrheidiol gwneud y Gorchymyn.

8. CYLLIDO A CHYFLWYNO

- 8.1 Cost y Cynllun yw £19 miliwn. Hyd yma, mae'r Cyngor wedi ymrwymo £6.15 miliwn i'r Cynllun. Mae dadansoddiad y cyllid blynnyddol mewn miloedd wedi'u nodi yn y tabl isod.

	17-18	18-19	19-20	20-21	21-22	CYFANSWM (£,000)
Grant LIC	100	434	453	350		£1,337
RhCT	39	9	0	1,875	4,227	£6,150
	139	443	453	2,225	4,227	£7,487

- 8.2 Mae'r Cyngor wedi gwneud cais am grant o Gronfa Trafnidiaeth Leol Llywodraeth Cymru ac wedi bod yn llwyddiannus, gan dderbyn cyfanswm o £1,337,000. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwahodd ceisiadau pellach ar gyfer cyllid y Gronfa Trafnidiaeth Leol yn 2021/22 ac yn y blynnyddoedd dilynol. Dim ond bob blwyddyn y mae modd gwneud cais am gyllid, ac o ganlyniad, dim ond yr arian sydd ei angen ar gyfer y flwyddyn ariannol benodol honno sy'n cael ei hystyried - dyma'r amodau a osodir gan Lywodraeth Cymru. Mae Cynlluniau sydd eisoes wedi derbyn rhyw faint o arian yn debygol o gael blaenoriaeth wrth i'r cynlluniau barhau. Mae Cynllun yr A4119 ger Coed-elái yn y categori yma.

- 8.3 Mae'r gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru hyd yma yn awgrymu bod cydnabyddiaeth gan y Llywodraeth bod y Cynllun yn bwysig i'r ardal, ac o hystyried natur y drefn ariannu dyw hi ddim yn bosibl ar hyn o bryd i sicrhau ymrwymiad penodol pellach gan Lywodraeth Cymru ar gyfer arian yn y dyfodol.

- 8.4 Bydd yr holl arian sydd wedi'i sicrhau hyd yma yn galluogi'r dyluniad (gan gynnwys arolygon ac archwiliadau), prynu tir trydydd parti a galluogi gwaith i gael ei gynnal cyn y prif waith adeiladu.
- 8.5 Amcangyfrifir mai £19 miliwn bydd cost y Cynllun, a dim ond bob blwyddyn (fel arfer ym milonawr) mae modd i'r Cyngor wneud cais i Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Er y cydnabyddir bod economi'r DU wedi profi ergyd yn sgil Covid-19 yn ystod hanner cyntaf 2020, deallwn fod Llywodraeth San Steffan a Llywodraeth Cymru yn blaenorai aethu datblygu seilwaith er mwyn sicrhau twf economaidd yn y dyfodol. Felly, mae'r Cyngor yn hyderus y bydd arian ar gael i gyflwyno'r Cynllun yma pan fydd angen drwy wneud defnydd o gronfeydd mewnol yn ogystal â Grantiau Llywodraeth Cymru. Mae trafodaethau hefyd ar y gweill parthed rhannu costau'r bont droed ger cylchfan Coed-elái, gyda'r datblygiad ar safle hen lofa a golosgfa Coed-elái.
- 8.6 O ran cyflwyno'r Cynllun, fel y nodir ym mharagraff 6.14, mae'r Cynllun yn datblygu a ganiateir, felly does dim angen caniatâd cynllunio. Does dim angen AEA. Ym mis Medi 2016, cafodd Asesiad Ecolegol Rhagarweiniol¹⁸ ei gynnal ar gyfer y Cynllun. Nodwyd bod angen Gwaith Tirfesur pellach. Rhwng Mawrth 2018 a Mehefin 2019 cafodd arolygon amrywiol eu cynnal ar gyfer ystlumod¹⁶, pathew¹⁷, arolwg cynefinoedd a gwrychoedd, mapio rhywogaethau ymledol, adar sy'n brido, madfall ddŵr gribog, ymlusgiaid, dyfrgwn a llygod dŵr, moch daear a choedyddiaeth. Nododd y Gwaith Tirfesur fod ystlumod pedol lleiaf yn croesi'r ffordd bresennol mewn dau le ar hyn o bryd. Er bod cadarnhad na fydd angen trwydded gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer ystlumod ar y Cynllun, gan ei fod yn gysylltiedig â mannau croesi'n unig. Bydd y Cynllun yn cynnwys mannau croesi yn y dyluniad er mwyn galluogi'r ystlumod i barhau i groesi'r ffordd. Bydd Gwaith Tirfesur sylfaenol parhaus yn cael ei gynnal drwy gydol y Cynllun i asesu'r effaith ar yr ystlumod.
- 8.7 Nododd y Gwaith Tirfesur y canlyniadau canlynol mewn perthynas â pathewod¹⁷:
- Does dim tystiolaeth o bathewod wedi'i nodi ar ochr ddeheuol yr A4119.
 - Nodwyd tri nyth pathewod gwag mewn nythbibellau yn y cloddiau ar ochr ogledol yr A4119. Roedd yr agosaf o'r nythod hyn wedi'i leoli 150m o ffordd gerbydau'r A4119.
 - Cafodd dau nyth pathewod eu nodi mewn nythbibellau ar ochr ogledol ffordd gerbydau'r A4119. Roedd yr agosaf oddeutu 60m o'r ffordd.
 - Cafodd llygod y maes eu cofnodi mewn nifer o nythbibellau drwy gydol yr arolwg.
- Mae'r adroddiad yna'n argymhell sicrhau Trwydded Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop (ESPL) ar gyfer pathewod gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a bydd angen datganiad dull cyn dechrau ar waith clirio llysdyfiant. Ni chredir bod hyn yn rhwystro'r Cynllun rhag cael ei gyflawni.
- 8.8 Does dim cyfyngiadau amgylcheddol na daearyddol arall a all rhwystro cyflwyno'r Cynllun.

9. CASGLIAD

- 9.1 Bydd y Cynllun yn cael ei adeiladu gan ddefnyddio pwerau'r Cyngor fel Awdurdod y Briffydd, yn unol â Deddf Priffydd 1980.

- 9.2 Fel Awdurdod y Priffyrrd ar gyfer Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, mae gan y Cyngor bwer i adeiladu, i wella ac i gynnal y priffyrrd, yn unol â Deddf Priffyrrd 1980.
- 9.3 Wrth ystyried defnyddio pwerau prynu gorfodol, ystyriwyd Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, fel sydd wedi'i gynnwys yn y gyfraith yn y DU gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Yn bennaf, mae wedi ystyried yr hawliau, sy'n cael eu nodi yn Erthygl 1 o protocol cyntaf i'r Confensiwn ar Hawliau Dynol. Mae'r tir fydd yn cael ei gaffael yn hanfodol yn cynrychioli'r isafswm er mwyn galluogi'r prosiect i ddeuoli'r A4119 ger Coed-elái i barhau. Yn ogystal, mae hawliau dynol y rhai sy'n cael eu heffeithio'n andwyol gan y Cynllun wedi'u cydbwyso yn erbyn manteision y Cynllun i gymuned:
- Mwy o gapasiti a chydnerthedd i'r A4119 fel y mae ar hyn o bryd rhwng cylchfannau Pencadlys y Gwasanaeth Tân a Choed-elái.
 - Gwell diogelwch ar y ffyrdd.
 - Gwell llwybrau cerdded a beicio
 - Gwell dibynadwyedd a hyfwedd trafnidiaeth gyhoeddus.
 - Catalydd ar gyfer datblygu safle datblygu strategol 14.32ha a safleoedd cyfagos yn llawn.
 - Gwell cysylltedd a chysylltiadau rhanbarth er budd cyfleoedd economaidd yn ardal orllewinol yn Rhondda Cynon Taf a'r rhanbarth.
- 9.4 Bydd deuoli'r A4119 ger Coed-elái yn cyfrannu at gyflawni nodau ac amcanion lles Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd mesurau ar hyd y corridor trafnidiaeth yma i leihau amser teithio pobl a gwella dibynadwyedd yn cyfrannu at wella mynediad i safleoedd cyflogaeth allweddol yn rhan ddeheuol y corridor. Bydd cynyddu cyfran y trigolion wedi'u cyflogi yn cefnogi twf economaidd yn yr ardal, yn help i godi lefelau incwm cartrefi, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a chreu ffyniant pellach mewn cymunedau. Bydd lleihau'r tagfeydd traffig yn y mannau cyfyng allweddol ar hyd corridor yr A4119 yn sicrhau manteision amgylcheddol ehangach, gan gynnwys lleihad posibl mewn allyriadau carbon gan draffig, gwelliant posibl i ansawdd aer lleol a ardal o dir cyhoeddus mwy deniadol. Bydd buddsoddi yng nghoridor A4119, ar y cyd â chynlluniau gan gwmniau bysiau i fuddsoddi mewn bysiau newydd, yn annog mwy i ddefnyddio'r gwasanaethau bws a helpu i gynnal ei hyfwedd masnachol. Bydd hyn, yn ei dro, yn sicrhau bod y gwasanaethau bws yn parhau i chwarae rhan bwysig wrth gysylltu cymunedau, gan gysylltu cymunedau â lefelau uchel o amddifadedd a lefel perchnogaeth car isel (yn rhan ogledol y corridor) gydag ardaloedd â gweithgarwch economaidd bywiog ac ystod eang o swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau (yn rhan ddeheuol y corridor).

10. DOGFENNAU

Trafnidiaeth

1. Deuoli'r A4119 Heol Cwm Elái, Coed-elái - Asesiad Trafnidiaeth - Mehefin 19
2. Deuoli'r A4119 Heol Cwm Elái, Coed-elái, Adendwm Asesiad Trafnidiaeth - Tachwedd 19
3. Asesiad Coridor yr A4119, rhagolwg traffig ac asesiad capasiti - Mai 18
4. Nodyn Technegol Covid-19 gan Redstart - Gorffennaf 20

WelTAG

5. Coed-elái: Adroddiad Achos Strategol Amlinellol (Weltag Cam 1) - Ionawr 18
6. Coed-elái: Adroddiad Achos Strategol Amlinellol (Weltag Cam 1) - Adroddiad Asesiad Effaith - Ionawr 18
7. Coed-elái: Adroddiad Achos Busnes Amlinellol (Weltag Cam 2) - Adroddiad Asesiad Effaith - Hydref 18
8. Coed-elái: Adroddiad Achos Busnes Amlinellol (Weltag Cam 2) - Hydref 18

Penderfyniadau'r Cyngor a Dogfennau

9. Adroddiad Cabinet 18/07/19
10. Adroddiad o'r Penderfyniad 18/07/19
11. Adroddiad Cabinet 21/06/18
12. Adroddiad o'r Penderfyniad 21/06/18
13. Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig RhCT hyd at 2021 – tud. 39, 110, 113, 142 a 220 -
<https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/PlanningandBuildingControl/LocalDevelopmentPlans/RelateddocumentsLDP20062021/AdoptedLocalDevelopmentPlan.pdf>

Cynllunio ac Ecoleg

14. Llythyr Datblygiad a Ganiateir gan Adran Gynllunio RhCT - 14 Medi 2018
15. Llythyr gan Adran Gynllunio RhCT yn cadarnhau nad oes angen AEA - 20 Gorffennaf 2020
16. Adroddiad Arolwg Ystlumod Deuoli'r A4119 Coed-elái - Mai 20
17. Arolwg Cynllunio Pathewod Deuoli'r A4119 Coed-elái - Gorffennaf 19
18. Asesiad Ecoleg Rhagarweiniol Deuoli'r A4119 - Medi 16
19. Adroddiad Sgrinio Effaith ar yr Amgylchedd - Chwefror 18
20. Cynllun Gwella'r A4119 Heol Cwm Elái, Coed-elái - Adroddiad Asesiad Sŵn - Chwefror 19

Ymgynghoriad â'r Cyhoedd a Pherchnogion Tir

21. Byrddau Ymgynghori Cyhoeddus - Chwefror 19
22. Llythyr Cyflwyno'r Prosiect - Awst 17
23. Llythyr Diweddarur Dyluniad - 01/07/20

Dyluniad Arfaethedig y Cynllun

24. Gorolwg trefniant cyffredinol – dylunio cychwynnol – P048-SH-80-01-P01 – Mai 2020
25. Manylion trefniant cyffredinol – dylunio cychwynnol – P048-SH-80-(02-04)-P01 – Mai 2020
26. Manylion trefniant cyffredinol – dylunio cychwynnol – P048-SH-80-(03)-P01 – Mai 2020
27. Manylion trefniant cyffredinol – dylunio cychwynnol – P048-SH-80-(04)-P01 – Mai 2020

ATODIAD 1 -

A. Atodlen

Rhondda Cynon Taf County Borough Council
(A4119 Coedely Dualling)
Compulsory Purchase Order 2020

Notes:

a. References to ownership are references to ownership or reputed ownership at the time of preparation of the Order and are stated only for the purpose of identification of the land.

b. In Column 2 of this schedule the OS Nos (Ordnance Survey Enclosure Numbers) are the numbers given on the digital 1: 2500 Ordnance Survey Sheet Nos. as follows:

(A) - ST 0185 (C) - ST 0285
(B) - ST 0284 (D) - ST 0384

c. Where OS Enclosure Numbers are unavailable, reference numbers containing 4 digits and the prefix 'A - H' have been substituted. Where an enclosure number straddles two OS sheets, the earlier alphabetical letter has been used.

d. The following approximate imperial equivalents relate to the metric measurements used in the accompanying drawings and schedules;

Units of length: 1mm = 0.039 inches (approx)
1 metre = 1.094 yards (approx)
1km = 0.621 miles (approx)

Units of area: 1 sq. m. = 1.196 sq. yards (approx)

TABL 1
TABLE 1

1	2	3			
Rhif ar y map Number on map	Hyd a lled, disgrifiad a lleoliad y tir Extent, description and situation of the land	Personau cymwys o dan adran 12(2)(a) o Ddeddf Caffael Tir 1981 Qualifying persons under Section 12 (2)(a) of the Acquisition of Land act 1981 - name and address			
		Perchnogion neu berchnogion honedig Owners or reputed owners	Lesddeiliaid neu lesddeiliaid honedig Lessees or reputed lessees	Tenantiaid neu denantiaid honedig (heblaw lesdeiliaid) Tenants or reputed tenants (other than lessees)	Meddianwyr Occupiers
IN THE COMMUNITY OF COEDELY IN THE COUNTY OF RHONDDA CYNON TAF					
1	All interests in 2997 square metres part of the public roads, layby and verges of A4119, Ely Valley Road on the north-west of A4119 Coedely Roundabout, all at land south of Ely Valley Road, Coedely over river bed and bank (River Ely) except those interests owned by the acquiring authority.	Rhondda Cynon Taf County Borough Council, The Pavilions, Cambrian Industrial Park, Clydach Vale, Tonypandy, CF40 2XX	None	None	Rhondda Cynon Taf County Borough Council, The Pavilions, Cambrian Industrial Park, Clydach Vale, Tonypandy, CF40 2XX
1A	All interests in 11953 square metres part of the public roads, accesses to field gates, footways, verges, embankments, grassland and roundabout of A4119, Ely Valley Road and unnamed road leading in a southerly direction towards Smilog Woods, all at land on the south of Ely Valley Road, Coedely except those interests owned by the acquiring authority. Part of OS enclosure no 1441 (C)	Rhondda Cynon Taf County Borough Council, The Pavilions, Cambrian Industrial Park, Clydach Vale, Tonypandy, CF40 2XX	None	None	Rhondda Cynon Taf County Borough Council, The Pavilions, Cambrian Industrial Park, Clydach Vale, Tonypandy, CF40 2XX
1B	All interests in 650 square metres part of the public roads, footways, verges and embankments of A4119, Ely Valley Road all at land on the north-east of Ely Valley Road, Coedely except those interests owned by the acquiring authority.	Rhondda Cynon Taf County Borough Council, The Pavilions, Cambrian Industrial Park, Clydach Vale, Tonypandy, CF40 2XX	None	None	Rhondda Cynon Taf County Borough Council, The Pavilions, Cambrian Industrial Park, Clydach Vale, Tonypandy, CF40 2XX
2	Whole of 105 square metres part of the public roads and verges of A4119, Ely Valley Road on the west of A4119 Coedely Roundabout, all at land on the south-west of Ely Valley Road, Coedely.	Natural Resources Wales Cambria House 29 Newport Road Cardiff CF24 0TP (in respect of River Ely) Rhondda Cynon Taf County Borough Council, The Pavilions, Cambrian Industrial Park, Clydach Vale, Tonypandy, CF40 2XX (in respect of public highway, A4119)	None	None	Natural Resources Wales Cambria House 29 Newport Road Cardiff CF24 0TP (in respect of River Ely) Rhondda Cynon Taf County Borough Council, The Pavilions, Cambrian Industrial Park, Clydach Vale, Tonypandy, CF40 2XX (in respect of public highway, A4119)

1	2	3			
Rhif ar y map Number on map	Hyd a lled, disgrifiad a lleoliad y tir Extent, description and situation of the land	Personau cymwys o dan adran 12(2)(a) o Ddeddf Caffael Tir 1981 Qualifying persons under Section 12 (2)(a) of the Acquisition of Land act 1981 - name and address			
		Perchnogion neu berchnogion honedig Owners or reputed owners	Lesdeiliaid neu lesddeiliaid honedig Lessees or reputed lessees	Tenantiaid neu denantiaid honedig (heblaw lesddeiliaid) Tenants or reputed tenants (other than lessees)	Meddianwyr Occupiers
3	54 square metres part of verge and embankment of A4119, Ely Valley Road on the south-west of Coedely Roundabout, all at Ely Valley Road, Coedely except those interests held by or on behalf of the Crown.	The Welsh Ministers, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ	None	None	The Welsh Ministers, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ Rhondda Cynon Taf County Borough Council, The Pavilions, Cambrian Industrial Park, Clydach Vale, Tonypandy, CF40 2XX
3A	110 square metres part of verge and embankment of A4119, on the south west of A4119 Coedely Roundabout, all at Ely Valley Road, Coedely except those interests held by or on behalf of the Crown.	The Welsh Ministers, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ	None	None	The Welsh Ministers, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ Rhondda Cynon Taf County Borough Council, The Pavilions, Cambrian Industrial Park, Clydach Vale, Tonypandy, CF40 2XX
3B	Whole of 4645 square metres part of the public road, roundabout, footway, verge, embankments, grassland and woodland scrub of A4119 Ely Valley Road, all at land south and west of A4119 South Wales Fire Service Headquarters Roundabout, Ely Valley Road, Ynysmaerdy except those interests held by or on behalf of the Crown. Part of OS enclosure nos 1462 (D)	The Welsh Ministers, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ	None	None	The Welsh Ministers, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ Rhondda Cynon Taf County Borough Council, The Pavilions, Cambrian Industrial Park, Clydach Vale, Tonypandy, CF40 2XX (in respect of adopted highway)
3C	Whole of 217 square metres part of the public road, roundabout, footway and verge of A4119 Ely Valley Road, all at east of South Wales Fire Service Headquarters, Ely Valley Road, Ynysmaerdy except those interests held by or on behalf of the Crown. Part of OS enclosure no 2566 (D)	The Welsh Ministers, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ	None	None	The Welsh Ministers, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ Rhondda Cynon Taf County Borough Council, The Pavilions, Cambrian Industrial Park, Clydach Vale, Tonypandy, CF40 2XX (in respect of adopted highway)
